Rhif: WG48291

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad Safon Ansawdd Tai Cymru – crynodeb o ymatebion polisi

Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol 978-1-83504-648-7

## Trosolwg

Diben Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw gwella ansawdd cartrefi cymdeithasol yng Nghymru.  Mae’r Safon bresennol wedi bod ar waith ers 2002. Mae'n ofynnol i bob cartref cymdeithasol yng Nghymru fodloni a chynnal y safon hon.

Bydd y Safon hon yn cael ei disodli gan safon newydd, SATC2023 i adlewyrchu newidiadau i’r ffordd mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teimlo am eu cartrefi, a dechrau datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol Cymru ar raddfa.

Ymgynghorwyd ar y safon newydd yn 2022 ac mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a’u hystyried.

Cafodd canlyniadau'r dadansoddiad eu crynhoi a'u cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Rhagfyr 2022. Gallwch weld yr adroddiad hwnnw yma: Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | LLYW.CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ystyried y dadansoddiad o’r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi cytuno ar y diwygiadau sydd i'w gwneud i'r safon.

Rhestrir y rhain isod, a gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach yn y daenlen yn Atodiad 1.

Mae’r newid mwyaf i’r safon yn Rhan 3, sef yr adran ar Gynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio.  Bydd dull gweithredu a gynlluniwyd yn cael ei fabwysiadu ac fe’i hamlinellir yn Atodiad 2.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: housingqualitystandards@llyw.cymru

### Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Trosolwg……………………………………………………………………………………………2

Cwestiynau'r ymgynghoriad ac ymatebion………………….………………………………….4

Atodiad 1 – taenlen yr ymatebion……………………........……………………………….……….9

Atodiad 2 – y dull gweithredu a gynlluniwyd.............................................……………...……10

| Cwestiynau’r ymgynghoriad | | Ymateb a cham gweithredu Llywodraeth Cymru (LIC) |
|---|---|---|
| C1 | Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad estynedig o dai cymdeithasol? | **Ymateb LIC:** er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y diffiniad, rydym yn cydnabod y gellid sicrhau eglurder pellach.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd geiriad y diffiniad yn cael ei gryfhau er mwyn rhoi eglurder pellach ar eiddo o fewn cwmpas y diffiniad. |
| C2 | Ydych chi'n cytuno bod y Safon arfaethedig yn mynd yn ddigon pell i wella ansawdd cartrefi cymdeithasol yng Nghymru? | **Ymateb LIC:** nodwn fod yr ymatebwyr yn gyffredinol yn teimlo bod y safon yn mynd yn ddigon pell, fodd bynnag, gellid ei chryfhau o ran lleithder a llwydni.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd y geiriad yn elfen 1b yn cael ei gryfhau i gynnwys cyddwysiad parhaus. |
| C3 | Ydych chi'n cytuno bod y Safon arfaethedig yn ymdrin â'r holl feysydd allweddol y byddech yn disgwyl iddi ymdrin â nhw? | **Ymateb LIC:** roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â chwmpas y safon, fodd bynnag, rydym yn nodi'r pryderon ynghylch Rhan 3.<br><br>**Cam gweithredu**: bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |
| C4 | Cynigir y dylai cartrefi cymdeithasol yng Nghymru gydymffurfio â'r Safon erbyn diwedd 2033. Ydych chi'n cytuno â'r amserlen hon? | **Ymateb LIC:** rydym yn cydnabod bod llawer o'r ymatebwyr o’r farn bod yr amserlen yn heriol mewn perthynas â Rhan 3 o'r safon ac felly rydym am ddiwygio'r adran hon.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |
| C5 | Mae Atodiad 5 yn nodi'r dyddiadau erbyn pryd y dylid cyflawni pob elfen yn y Safon arfaethedig. A yw'r dyddiadau hyn yn rhesymol? | **Ymateb LIC:** er ein bod yn derbyn y byddai rhai ymatebwyr yn hoffi gweld gweithredu'n gyflymach, roedd y rhwystrau a nodwyd i gyflawni'r rhain yn sylweddol.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| C6 | Ydych chi'n cytuno bod y Safon arfaethedig yn gosod rhwymedigaethau digonol ar landlordiaid er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â thenantiaid mewn ffordd ystyrlon ynglŷn â gwaith a gynlluniwyd ar eu cartrefi? | **Ymateb LIC:** rydym yn derbyn, er bod y rhwymedigaeth hon ymhlyg o fewn y safon y mae angen ei chryfhau.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd y safon yn cael ei chryfhau mewn perthynas â'r gofyniad i landlordiaid ymgysylltu'n effeithiol â thenantiaid. |
| C7a | Fel arfer, mae safonau uwch yn golygu costau uwch. Fel landlord pa heriau penodol rydych yn eu rhagweld ar gyfer eich sefydliad eich hun o ran cydymffurfio â'r Safon arfaethedig? | **Ymateb LIC:** mae LIC yn cydnabod bod yr uchelgeisiau a nodir yn y safon arfaethedig yn heriol ac y bydd angen swm sylweddol o gyllid i'w cyflawni. Bydd cyrraedd y targedau o fewn y safon yn ymrwymiad hirdymor.<br><br>**Cam gweithredu:** Yn y tymor byr, mae cyllid ar gael o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a bydd oddeutu £270m dros dymor y llywodraeth hon, ac mae ar gael i bob landlord i helpu gyda'r daith ddatgarboneiddio. Y flwyddyn ariannol hon (2023/24) dyrannwyd £70m yn ddangosol i landlordiaid ar sail cyllid fformiwla ac mae ymrwymiad ar gyfer £70m arall y flwyddyn nesaf.<br><br>Bydd y dull a gynlluniwyd ar gyfer Rhan 3 o'r Safon yn lliniaru rhai o'r materion ariannu ac mae LIC wedi ymrwymo i weithio gyda'r landlordiaid dros y blynyddoedd i ddod i archwilio dulliau cyllido yn y dyfodol. |
| C7b | Landlordiaid nad ydynt yn Landlordiaid Cymdeithasol: Pa heriau ariannol y gallech weld landlordiaid cymdeithasol yn eu hwynebu o ran cydymffurfio â'r Safon arfaethedig? | **Ymateb LIC:** mae LIC yn cydnabod bod yr uchelgeisiau a nodir yn y safon arfaethedig yn heriol ac y bydd angen swm sylweddol o gyllid i'w cyflawni. Bydd cyrraedd y targedau o fewn y safon yn ymrwymiad hirdymor.<br><br>**Cam gweithredu:** Yn y tymor byr, mae cyllid ar gael o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a bydd oddeutu £270m dros dymor y llywodraeth hon, ac mae ar gael i bob landlord i helpu gyda'r daith ddatgarboneiddio. Y flwyddyn ariannol hon |

| | | |
|---|---|---|
| | | (2023/24) dyrannwyd £70m yn ddangosol i landlordiaid ar sail cyllid fformiwla ac mae ymrwymiad ar gyfer £70m arall y flwyddyn nesaf.<br><br>Bydd y dull a gynlluniwyd ar gyfer Rhan 3 o'r Safon yn lliniaru rhai o'r materion ariannu ac mae LIC wedi ymrwymo i weithio gyda'r landlordiaid dros y blynyddoedd i ddod i archwilio dulliau cyllido yn y dyfodol. |
| C8 | A yw'r Safon arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn feiddgar ac yn gyflawnadwy? | **Ymateb LIC:** tra bod rhai yn anghytuno â'r datganiad hwn, roedd eraill yn cytuno – mae hyn yn adlewyrchu'r ystod o randdeiliaid. Mynegwyd gwrthwynebiadau sylweddol mewn perthynas â Rhan 3.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |
| C9 | Yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol, beth y gellid ei ychwanegu at y Safon arfaethedig er mwyn lliniaru tlodi ymhellach, yn eich barn chi? | **Ymateb LIC:** roedd yr ymatebion a awgrymwyd y tu allan i gwmpas y safon. Mae'r elfen Cynhesrwydd Fforddiadwy yn mynd i'r afael â'r mater o ran yr eiddo ond nid oes ganddo unrhyw ddylanwad dros bethau fel incwm.<br><br>**Cam gweithredu:** Dim newid arfaethedig i'r safon – gweler y daenlen am ragor o wybodaeth. |
| C10 | A ddylai unrhyw beth gael ei ychwanegu at y Safon arfaethedig er mwyn gwneud cartrefi yn fwy diogel? | **Ymateb LIC:** roedd yr ymatebion a awgrymwyd y tu allan i gwmpas y safon.<br><br>**Cam gweithredu:** Dim newid arfaethedig i'r safon – gweler y daenlen am ragor o wybodaeth. |
| C11 | Ydych chi'n cytuno mai SAP/EPC yw'r mesur presennol gorau i asesu effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol? | **Ymateb LIC:** ni awgrymwyd unrhyw ddewisiadau arwyddocaol eraill, ac mae SAP yn parhau i fod yn safon ar gyfer y diwydiant a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall diweddariadau i'r model SAP. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cam gweithredu:** Dim newid arfaethedig i'r safon – gweler y daenlen am ragor o wybodaeth. |
| C12 | Os mai SAP/EPC yw'r mesur a ddefnyddir, ydych chi'n cytuno mai SAP 92/EPC A yw'r targed y dylid ei bennu ar gyfer cartrefi? | **Ymateb LIC:** mae LIC yn cydnabod, er bod y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r targed hwn yn ddilys, nad ydynt o fewn cwmpas y safon. Mae angen i'r gwaith gynnwys ymgysylltu â thenantiaid.<br><br>**Cam gweithredu:** bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull a gynlluniwyd.<br><br>Bydd y gofynion ymgysylltu â thenantiaid yn cael eu cryfhau o fewn y safon. |
| C13 | Rhaid lleihau allyriadau carbon o gartrefi cymaint â phosibl (EIR 92 o leiaf). Ydych chi'n cytuno mai SAP/EIR yw'r mesur cywir, sydd ar gael ar hyn o bryd, i asesu allyriadau carbon o gartrefi? | **Ymateb LIC:** Nid oes metrig i ymgymryd â dull cylchred oes gyfan ac rydym yn derbyn bod SAP yn safon sy'n esblygu, a bydd y safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y gwaith modelu SAP yn y dyfodol.<br><br>**Cam gweithredu:** Dim newid arfaethedig i'r safon – gweler y daenlen am ragor o wybodaeth. |
| C14 | Os mai SAP/EIR yw'r mesur a ddefnyddir, ydych chi'n cytuno mai EIR 92 yw'r targed y dylid ei bennu ar gyfer cartrefi? Os nad ydych, pa darged y byddech yn awgrymu ei fod yn cael ei ddefnyddio a pham? | **Ymateb LIC:** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y dull gweithredu diwygiedig a gynlluniwyd ar gyfer Rhan 3 o'r safon yn cyflwyno hyblygrwydd ac yn mynd i'r afael â llawer o faterion a godwyd. Mae'r bandiau EIR yn rhy eang ar gyfer y safon i gael eu defnyddio ar eu pennau eu hunain ac mae defnyddio'r sgorau yn rhoi mwy o fanylder. Fodd bynnag, bydd y bandiau hefyd yn cael eu cyflwyno er mwyn darparu cysondeb. Mae LIC yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ym maes gwrthbwyso carbon i ganiatáu i landlordiaid gael mynediad i farchnadoedd ariannol ar gyfer masnachu carbon.<br><br>**Cam gweithredu:** Diwygio'r safon i gynnwys bandiau yn y sgôr EIR.<br><br>Bydd canllawiau cydbwyso carbon yn cael eu llunio ochr yn ochr â'r safon. |

| | | |
|---|---|---|
| C15 | Er mwyn lleihau allyriadau carbon, dylai landlordiaid gynllunio i roi'r gorau i osod boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil i ddarparu dŵr poeth domestig a chynhesu lle o 2026 ymlaen. Ydych chi'n cytuno â'r dyddiad hwn? | **Ymateb LIC:** mewn ymateb i bryderon, nid yw'r terfyn amser 2026 bellach yn y safon. Bydd y dull gweithredu diwygiedig ar gyfer Rhan 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord gyflwyno cynllun a bydd LIC yn goruchwylio'r cynlluniau hyn.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |
| C16 | Rhaid i landlordiaid gynnal Asesiad o'u Stoc Gyfan a llunio Llwybrau Ynni Targed ar gyfer eu cartrefi. Mae'r Llwybrau Ynni Targed yn cyfeirio at gynllun i sicrhau bod pob cartref mor ynni-effeithlon â phosibl. Ydych chi'n cytuno bod 3 blynedd yn ddigon o amser i ddatblygu'r llwybrau hyn ar gyfer pob cartref y mae'r Safon yn gymwys iddo? | **Ymateb LIC:** mae LIC yn derbyn yr heriau sy'n ymwneud ag adnoddau ariannol a sgiliau wrth ymgymryd â'r rhain a bydd yn parhau i weithio gyda'r sector i fynd i'r afael â hwy.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd canllawiau ar y Llwybrau Ynni Targed yn cael eu llunio gyda'r safon. |
| C17 | Rhaid rhoi'r holl fesurau a argymhellir drwy'r Llwybr Ynni Targed ar waith. Ydych chi'n cytuno mai hwn yw'r dull gweithredu cywir? | **Ymateb LIC:** bydd Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio LIC yn darparu tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu drwy'r Hwb. Mae ymgysylltu â thenantiaid yn rhan annatod o lwyddiant y safon.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd.<br><br>Bydd canllawiau penodol ar Lwybrau Ynni Targed hefyd yn cael eu cynnwys gyda'r safon.<br><br>Bydd gofynion ymgysylltu â thenantiaid yn cael eu cryfhau o fewn y safon. |
| C18 | Ydych chi'n cytuno â'r dyddiadau yn yr enghraifft a nodir yn 3d? | **Ymateb LIC:** Bydd y dull diwygiedig ar gyfer Rhan 3 yn cyflwyno hyblygrwydd ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull gweithredu a gynlluniwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| C19 | Mae'r Safon arfaethedig yn nodi y gellir lleihau allyriadau carbon o gartrefi drwy gydbwyso perfformiad cartref ag ôl troed carbon uchel â chartrefi mwy effeithlon. Felly, mae'r Safon arfaethedig yn mynnu Sero Net gan y stoc dai gyfan, yn hytrach na Sero Net ar gyfer eiddo unigol. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o sicrhau Sero Net ar gyfer y stoc tai cymdeithasol? | **Ymateb LIC:** rydym yn cydnabod y bydd hi'n anoddach mynd i'r afael â rhai cartrefi sy'n anodd eu trin, fodd bynnag, mae'r safon yn ymwneud â thegwch ar draws yr holl gartrefi a bydd angen i gynlluniau landlordiaid ddangos eu bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn.<br><br>**Cam gweithredu:** Bydd Rhan 3 o'r safon yn cael ei diwygio i gynnwys gosod mesuryddion deallus mewn cartrefi.<br><br>Bydd canllawiau ar gydbwyso carbon yn cael eu cynnwys yn y safon. |
| C20 | Rhaid gosod mesurau i wella effeithlonrwydd dŵr a lleihau tlodi dŵr wrth adnewyddu ffitiadau a chyfarpar gosod. A yw'r gofynion newydd o ran effeithlonrwydd dŵr sydd wedi'u cynnwys yn y Safon arfaethedig yn ddigonol? | **Ymateb LIC:** eir i'r afael â'r elfen hon drwy raglen waith landlord i liniaru unrhyw weithgaredd ymwthiol i denantiaid.<br><br>**Cam gweithredu:** Dim newid arfaethedig i'r safon – gweler y daenlen am ragor o wybodaeth. |
| C21 | Ar adeg newid tenantiaeth, dylai fod gan bob ystafell gyfanheddol (ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw), grisiau a landins yn y cartref orchuddion llawr addas. Mae tenantiaid wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw lloriau ym mhob rhan o'u cartref. Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i gynnwys y gofyniad newydd o ran lloriau ar adeg newid tenantiaeth? | **Ymateb LIC:** mae LIC yn derbyn bod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch yr elfen hon, a bydd hyn yn cael sylw.<br><br>**Cam gweithredu:** Cryfhau geiriad elfen 6b i wella eglurder. |
| C22 | Defnyddiwch yr adran hon i godi unrhyw beth arall ynghylch y Safon arfaethedig y dylid ei ystyried, yn eich barn chi, heblaw faterion cyllido. | **Ymateb LIC:** Mae'r sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn wedi'u hychwanegu at yr adran berthnasol a'u cynnwys yn yr ymatebion uchod. |
| C23 | Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau | **Ymateb LIC:** rydym yn cydnabod pwysigrwydd y ffaith bod tenantiaid yn gallu cyfathrebu â landlordiaid cymdeithasol yn yr iaith o'u dewis a byddwn yn parhau i archwilio unrhyw effaith gadarnhaol y gall y safon ei chael ar y Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol? | **Cam gweithredu:** Cyhoeddi'r safon ar ffurf dogfen HTML yn ogystal â fformatau eraill. |
| C24 | Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai Safon arfaethedig SATC2023 gael ei llunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. | **Ymateb LIC:** bydd LIC yn parhau i archwilio unrhyw effaith gadarnhaol y gall y safon ei chael ar y Gymraeg.<br><br>**Cam gweithredu:** Cyhoeddi'r safon ar ffurf dogfen HTML yn ogystal â fformatau eraill. |

## Atodiad 1

Taenlen o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a safbwynt polisi Llywodraeth Cymru a newidiadau a awgrymir i'r safon.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-09/ymatebion-polisi.xlsx

## Atodiad 2 – y dull gweithredu a gynlluniwyd

Mae’r newid mwyaf i’r safon yn Rhan 3, sef yr adran ar Gynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio.  Mae'r Gweinidog wedi cytuno y bydd dull gweithredu a gynlluniwyd yn cael ei fabwysiadu ac fe'i hamlinellir hyn isod.

Bydd yn ofynnol i bob landlord lunio ‘Cynllun Cynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio’ o fewn 3 blynedd i lansio'r safon.

Bydd y Cynllun yn nodi pryd y bydd y landlord yn cyrraedd targedau Sgôr Effeithlonrwydd Amgylcheddol (EER) o 92 (sy'n cyfateb i EPC A) a Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR) o 92 ar gyfer eu stoc dai.

Bydd canllawiau yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn amlinellu sut i fynd ati i lunio'r Cynllun.

Bydd y Cynllun yn cynnwys Asesiad Stoc Gyfan (WSA) o holl eiddo'r landlordiaid, a bydd hyn yn amlinellu sgôr EER ac EIR cyfredol pob un o'u cartrefi.

Yna bydd angen i landlordiaid lunio Llwybr Ynni Targed (TEP) ar gyfer pob cartref a fydd yn amlinellu'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i'r eiddo hwnnw er mwyn cyflawni'r targedau gofynnol. Bydd y TEP hefyd yn cynnwys gwybodaeth am amseriadau'r gwelliannau.

Yn ogystal â'r uchod, bydd disgwyl i landlordiaid sicrhau bod eu cartrefi i gyd yn cyrraedd band EPC C sy'n seiliedig ar ffabrig erbyn 2029.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu'r cynlluniau a'r dystiolaeth a ddarperir i sicrhau eu bod yn nodi amserlen ymarferol ar gyfer gweithredu'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r targedau o fewn y safon.